



DEDDF DRWYDDEDU 2003 | LICENSING ACT 2003
TRWYDDED ANHEDDAU | PREMISES LICENCE

Cyngor Sir **Ceredigion** County Council

Rhif trwydded | Premises licence number:

PRM (Cyhoeddwyd | Issued : 14/04/2022)

Rhan 1 – Manylion am y safle | Part 1 - Premises details

**Cyfeiriad post y safle, neu os nad oes un, cyfeirnod map ordnans neu ddisgrifiad:
Postal address of premises, or if none, ordnance survey map reference or description:**

**TAFARN Y DYFFRYN / THE VALE OF AERON
YSTRAD AERON
FELINFACH**

Tref bost | Post town

LLANBEDR PONT STEFFAN / LAMPETER

Côd Post | Post cod

SA48 8AE

Rhif ffôn | Telephone number

01570 470385

Os oes cyfyngiad ar yr amser, y dyddiadau | Where the licence is time limited the dates

**NID OES CYFYNGIADAU AMSER AR Y DRWYDDED
PREMISES LICENCE IS NOT TIME LIMITED**

Gweithgareddau trwyddedadwy a ganiateir gan y drwydded:

Licensable activities authorised by the licence:

ADLONIAENT | REGULATED ENTERTAINMENT

CHWARAEON DAN DO / INDOOR SPORTING EVENTS

CERDDORIAETH FYW | LIVE MUSIC

CERDDORIAETH WEDI'U RECORDIO | RECORDED MUSIC

ADWERTHU ALCOHOL | SALE BY RETAIL OF ALCOHOL

Yr amseroedd y mae'r drwydded yn caniatáu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy
The times the licence authorises the carrying out of licensable activities

ADLONIAENT | REGULATED ENTERTAINMENT
CHWARAEON DAN DO / INDOOR SPORTING EVENTS
LLUN-SUL / MON-SUN: 11:00-01:00 HRS

CERDDORIAETH FYW | LIVE MUSIC
CERDDORIAETH WEDI'U RECORDIO | RECORDED MUSIC
ADWERTHU ALCOHOL | SALE BY RETAIL OF ALCOHOL

POB GWEITHGAREDD TRWYDDEDADWY AC EITHRIO CHWARAEON DAN DO / ALL
ACTIVITIES EXCEPT INDOOR SPORTING EVENTS:
SUL-IAU / SUN-THURS: 11:00-01:00 HRS
GWE a SAD / FRI and SAT: 11:00-02:00

AMSERAU ANSAFONOL / NON-STANDARD TIMINGS
GWE-SUL (cynwysedig) O BOB GWYL Y BANC / FRI-SUN (inclusive OF EACH BANK
HOLIDAY: 11:00-03:00RS
DYDD SAN STEFFAN / BOXING DAY: 1100 – 0400
NOSON CALAN / NEW YEARS EVE: 1100 - 0400

Oriau agor y safle | The opening hours of the premises

SUL-IAU / SUN-THURS: 11:00-01:30HRS
GWE a SAD / FRI and SAT: 11:00-02:30HRS

AMSERAU ANSAFONOL | NON-STANDARD TIMINGS:
GWE-SUL (cynwysedig) O BOB GWYL Y BANC / FRI-SUN (inclusive OF EACH BANK
HOLIDAY: 11:00-03:30RS
DYDD SAN STEFFAN / BOXING DAY: 11:00-04:30HRS
NOSON CALAN / NEW YEARS EVE: 11:00-04:30HRS

Os yw'r drwydded yn caniatáu cyflenwi alcohol, a yw hyn yn golygu ar gyfer yfed ar y safle
neu oddi yno

Where the licence authorises supplies of alcohol whether these are on and/ or off supplies

AR AC ODDI AR Y SAFLE | ON AND OFF SALES

Enw, cyfeiriad (cofrestredig), rhif ffôn ac e-bost (os yw'n berthnasol) deilydd y drwydded safle
| Name, (registered) address, telephone number and email (where relevant) of holder of
premises licence

MENTER TAFARN DYFFRYN AERON
VALE OF AERON INN

**YSTRAD AERON
LAMPETER
CEREDIGION
SA48 8DE**

**Rhif cofrestredig y deilydd, er enghraifft rhif cwmni, rhif elusen (os yw'n berthnasol)
Registered number of holder, for example company number, charity number (where applicable)**

Enw, cyfeiriad a rhif ffôn Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn caniatáu cyflenwi alcohol | Name, address and telephone number of designated premises supervisor where the premises licence authorises the supply of alcohol

GARY DAVIES

**Rhif trwydded bersonol ac enw'r awdurdod sy'n rhoi'r drwydded bersonol a ddelir gan y Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn caniatáu cyflenwi alcohol
Personal licence number and issuing authority of personal licence held by designated premises supervisor where the premises licence authorises for the supply of alcohol**

CER 1516

CYNGOR SIR CEREDIGION / COUNTY COUNCIL

ATODIAD 1 - AMODAU GORFODOL

1 Amodau gorfodol pan fydd trwydded yn awdurdodi cyflenwi alcohol

- (1) Pan fydd trwydded safle'n awdurdodi cyflenwi alcohol, rhaid i'r drwydded gynnwys yr amodau canlynol.
- (2) Yr amod cyntaf yw na ellir cyflenwi alcohol dan y drwydded safle-
 - (a) ar adeg pan nad oes yna oruchwyliwr safle dynodedig yn unol â'r drwydded safle, neu
 - (b) ar adeg pan nad oes gan y goruchwyliwr safle dynodedig drwydded bersonol neu pan fydd ei drwydded bersonol wedi'i hatal.
- (3) Yr ail amod yw bod unrhyw alcohol a gyflenwir dan y drwydded safle'n gorfod cael ei gyflenwi neu'i awdurdodi gan berson sydd â thrwydded bersonol.

2 Amod gorfodol: dangos ffilmiau

- (1) Pan fydd trwydded safle'n awdurdodi dangos ffilmiau, rhaid i'r drwydded gynnwys amod bod mynediad i blant pan fydd unrhyw ffilm yn cael ei dangos yn cael ei gyfyngu yn unol â'r adran hon.
- (2) Pan fydd y corff categoreiddio ffilmiau'n cael ei nodi yn y drwydded, oni bai bod is-adran (3)(b) yn berthnasol, rhaid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan y corff hwnnw.
- (3)
 - (a) pan nad yw'r corff categoreiddio ffilmiau wedi'i nodi yn y drwydded, neu
 - (b) pan fydd yr awdurdod trwyddedu wedi hysbysu deiliad y drwydded bod yr is-adran hon yn berthnasol i'r ffilm dan sylw, dylid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan yr awdurdod trwyddedu hwnnw.
- (4) Yn yr adran hon -
Mae "plant" yn golygu pobl dan 18 oed; ac mae "corff categoreiddio ffilmiau" yn golygu'r person neu'r personau a ddynodwyd fel yr awdurdod dan adran 4 o Ddeddf Recordiadau Fideo 1984 (c.39) (yr awdurdod sy'n pennu addasrwydd ffilmiau fideo ar gyfer categoreiddio).

3 Amod gorfodol: goruchwyllo drysau

- (1) Pan fydd trwydded safle'n cynnwys amod bod yn rhaid i un berson neu ragor fod ar yr eiddo ar adegau penodol i gwblhau gweithgaredd diogelwch, rhaid i'r drwydded gynnwys amod bod yn rhaid i unrhyw berson o'r fath feddu ar drwydded Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.
- (2) Ond does dim byd yn is-adran (1) sy'n gofyn am osod amod o'r fath -
 - (a) ar gyfer safleoedd o fewn paragraff 8(3)(a) o Atodlen 2 Deddf y Diwydiant Diogelwch Preifat 2001 (c.12) (safleoedd gyda thrwyddedau safle sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu
 - (b) ar gyfer safleoedd mewn perthynas ag-
 - (i) unrhyw achlysur a grybwyllir ym mharagraff 8(3)(b) neu (c) o'r Atodlen honno (safleoedd sy'n cael eu defnyddio gan glwb sydd â thystysgrif safle clwb yn unig, dan hysbysiad digwyddiad dros dro sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu dan drwydded hapchwarae, neu
 - (ii) unrhyw achlysur o fewn paragraff 8(3)(d) o'r Atodlen honno (achlysuron a bennir gan reoliadau dan y Ddeddf honno).
- (3) At ddibenion yr adran hon -
 - (a) mae "gweithgaredd diogelwch" yn golygu gweithgaredd y mae paragraff 2(1)(a) o'r Atodlen honno'n berthnasol ar ei gyfer, a
 - (b) bod paragraff 8(5) o'r Atodlen honno (dehongli cyfeiriadau at achlysur) yn berthnasol, am ei fod yn berthnasol mewn perthynas â pharagraff 8 o'r Atodlen honno.

Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2014

Yn effeithiol o 6 Ebrill 2014

1. Rhaid i berson perthnasol sicrhau na chaiff unrhyw alcohol ei werthu na'i gyflenwi i'w yfed ar y safle nac oddi arno am bris sy'n llai na'r pris a ganiateir.
2. At ddibenion yr amod a nodir ym mharagraff 1-
 - (a) mae "treth" i'w dehongli yn unol â Deddf Trethi ar Ddiodydd Alcoholaidd 1979(6);
 - (b) "y pris a ganiateir" yw'r pris a geir drwy ddefnyddio'r fformiwla –
$$P = D + (D \times V)$$
pan mai –
 - (i) P yw'r pris a ganiateir
 - (ii) D yw cyfradd y dreth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol, a
 - (iii) V yw cyfradd y dreth ar werth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth ar werth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol
 - (c) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae trwydded safle mewn grym, yw
 - (i) Deiliad y drwydded safle,
 - (ii) Goruchwylydd dynodedig y safle (os oes un) mewn perthynas â thrwydded o'r fath, neu
 - (iii) Deiliad trwydded bersonol sy'n cyflenwi alcohol o dan drwydded o'r fath neu sy'n caniatáu iddo gael ei gyflenwi;
 - (d) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae tystysgrif safle clwb mewn grym, yw unrhyw un o aelodau neu swyddogion y clwb sy'n bresennol ar y safle mewn rôl sy'n galluogi'r aelod neu'r swyddog i atal y cyflenwad o dan sylw; ac
 - (e) ystyr "treth ar werth" yw treth ar werth sy'n daladwy yn unol â Deddf Treth ar Werth 1994(7)
3. Os nad yw'r pris a ganiateir a roddir gan Baragraff (b) o baragraff 2 (ar wahân i'r paragraff hwn) yn rhif cyfan o geiniogau, rhaid cymryd mai'r pris a roddir gan yr is-baragraff hwnnw yw'r pris a roddir mewn gwirionedd gan yr is-baragraff hwnnw wedi'i dalgrynnu i fyny i'r geiniog agosaf.
4. (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys os yw'r pris a ganiateir gan Baragraff (b) o baragraff 2 ar y naill ddiwrnod ("y diwrnod cyntaf") yn wahanol i'r pris a ganiateir ar y diwrnod nesaf ("yr ail ddiwrnod") o ganlyniad i newid i gyfradd y dreth neu'r dreth ar werth.

(2) Mae'r pris a ganiateir sy'n gymwys ar y diwrnod cyntaf yn gymwys i werthiant neu gyflenwad alcohol sy'n digwydd cyn i'r cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau ar yr ail ddiwrnod ddod i ben.

Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) (Diwygio) 2014

Mae'r Amodau Gorfodol isod yn **disodli** Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2010 a daethant i rym ar **1 Hydref 2014**.

Mae amodau 1 i 4 yn cyfeirio at yr holl safleoedd sy'n gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle. Mae amod 3 yn berthnasol i safleoedd sy'n gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle.

1. (1) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau nad yw staff ar y safle perthnasol yn ymgymryd â, yn trefnu neu'n cymryd rhan mewn unrhyw hyrwyddo anghyfrifol mewn perthynas â'r safle.

(2) Yn y paragraff hwn, mae hyrwyddo anghyfrifol yn golygu un neu fwy o'r gweithgareddau a ganlyn, neu weithgareddau sy'n sylweddol debyg, sy'n digwydd er mwyn hyrwyddo gwerthiant neu gyflenwad o alcohol i'w yfed ar y safle -

(a) gemau neu weithgareddau eraill sy'n gofyn am neu'n hybu, neu sydd wedi'u dylunio i ofyn neu i hybu unigolion i -

(i) yfed swm o alcohol o fewn cyfyngiad amser (heblaw yfed alcohol a werthwyd neu a gyflenwyd ar y safle cyn terfyn y cyfnod y mae'r unigolyn cyfrifol wedi'i awdurdodi i werthu neu gyflenwi alcohol), neu

(ii) yfed cymaint o alcohol â phosib (un ai mewn cyfyngiad amser neu fel arall);

(b) darparu swm diddiwedd neu amhenodol o alcohol am ddim neu am bris penodedig neu ar ddisgownt i'r cyhoedd neu i grŵp a gaiff ei ddiffinio gan nodwedd benodol sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(c) darparu alcohol am ddim neu ar ddisgownt neu unrhyw beth arall fel gwobr i annog neu i wobrwyo prynu ac yfed alcohol dros gyfnod o 24 awr neu lai mewn modd sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(d) gwerthu neu gyflenwi alcohol mewn cysylltiad â phosteri neu bamffledi ar, neu yng nghyffiniau'r safle, a ellir ei ystyried yn rhesymol fel ei fod yn caniatáu, neu'n annog neu'n cyfeirio at effeithiau meddwdod ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn modd ffafriol;

(e) unigolyn yn tywallt alcohol yn uniongyrchol i geg unigolyn arall (heblaw pan fo unigolyn yn methu yfed heb gymorth oherwydd anabledd).

2. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau fod dŵr yfed am ddim yn cael ei ddarparu ar gais i gwsmeriaid pan fod hyn ar gael yn rhesymol.

3. (1) Rhaid i ddeilydd y drwydded eiddo neu ddeilydd y dystysgrif eiddo clwb sicrhau y gweithredir polisi gwirio oed ar y safle mewn perthynas â gwerthu neu gyflenwi alcohol.

(2) Rhaid i oruchwyliwr dynodedig y safle mewn perthynas â'r drwydded eiddo sicrhau bod gwerthiant alcohol ar y safle yn digwydd yn unol â'r polisi gwirio oed.

(3) Rhaid i'r polisi fynnu bod unigolion sy'n edrych dan 18 oed i'r person cyfrifol (neu'r oed hŷn a nodir yn y polisi) ddangos ar gais, cyn cael prynu alcohol, tystiolaeth yn cynnwys eu llun, dyddiad geni a naill ai -

(a) marc holograffig, neu

(b) nodwedd uwchfioled.

4. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau -

(a) os caiff unrhyw un o'r diodydd alcoholig canlynol eu gwerthu neu eu cyflenwi i'w hyfed ar y safle (heblaw am ddiodydd alcohol sy'n cael eu gwerthu neu eu cyflenwi ar ôl eu gwneud yn barod i'w gwerthu mewn cynhwysydd wedi'i gau'n ddiogel), bydd yr alcohol ar werth i gwsmeriaid yn y mesurau a ganlyn -

(i) cwrw neu seidr: ½ pint;

(ii) jin, rym, fodca neu wisgi: 25 ml neu 35 ml; a

(iii) gwin llonydd mewn gwydryn: 125 ml;

(b) caiff y mesurau hyn eu dangos mewn bwydlen, ar restr brisiau neu ddeunydd printiedig arall sydd ar gael i gwsmeriaid ar y safle; a

(c) lle nad yw cwsmer, mewn perthynas â gwerthiant alcohol, yn manylu ar y swm o alcohol i'w werthu, bydd y gwerthwr yn hysbysu'r cwsmer fod y mesurau hyn ar gael.

Annex 1 - MANDATORY CONDITIONS

1 Mandatory conditions where licence authorises supply of alcohol

- (1) Where a premises licence authorises the supply of alcohol, the licence must include the following conditions.
- (2) The first condition is that no supply of alcohol may be made under the premises licence-
 - (a) at a time when there is no designated premises supervisor in respect of the premises licence, or
 - (b) at a time when the designated premises supervisor does not hold a personal licence or his personal licence is suspended.
- (3) The second condition is that every supply of alcohol under the premises licence must be made or authorised by a person who holds a personal licence.

2 Mandatory condition: exhibition of films

- (1) Where a premises licence authorises the exhibition of films, the licence must include a condition requiring the admission of children to the exhibition of any film to be restricted in accordance with this section.
- (2) Where the film classification body is specified in the licence, unless subsection (3)(b) applies, admission of children must be restricted in accordance with any recommendation made by that body.
- (3) Where-
 - (a) the film classification body is not specified in the licence, or
 - (b) the relevant licensing authority has notified the holder of the licence that this subsection applies to the film in question, admission of children must be restricted in accordance with any recommendation made by that licensing authority.
- (4) In this section - "children" means persons aged under 18; and "film classification body" means the person or persons designated as the authority under section 4 of the Video Recordings Act 1984 (c.39) (authority to determine suitability of video works for classification).

3 Mandatory condition: door supervision

- (1) Where a premises licence includes a condition that at specified times one or more individuals must be at the premises to carry out a security activity, the licence must include a condition that each such individual must be licensed by the Security Industry Authority.
- (2) But nothing in subsection (1) requires such a condition to be imposed-
 - (a) in respect of premises within paragraph 8(3)(a) of Schedule 2 to the Private Security Industry Act 2001 (c.12) (premises with premises licenses authorising plays or films), or
 - (b) in respect of premises in relation to-
 - (i) any occasion mentioned in paragraph 8(3)(b) or (c) of that Schedule (premises being used exclusively by club with club premises certificate, under a temporary event notice authorising plays or films or under a gaming licence), or
 - (ii) any occasion within paragraph 8(3)(d) of that Schedule (occasions prescribed by regulations under that Act).
- (3) For the purposes of this section-
 - (a) "security activity" means an activity to which paragraph 2(1)(a) of that Schedule applies, and

(b) paragraph 8(5) of that Schedule (interpretation of references to an occasion) applies as it applies in relation to paragraph 8 of that Schedule.

The Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) Order 2014

With effect from 28th May 2014

1. A relevant person shall ensure that no alcohol is sold or supplied for consumption on or off the premises for a price which is less than the permitted price.
2. For the purposes of the condition set out in paragraph 1-
 - (a) “duty” is to be construed in accordance with the Alcoholic Liquor Duties Act 1979;
 - (b) “permitted price” is the price found by applying the formula –
$$P = D + (D \times V)$$
where –
 - (i) P is the permitted price
 - (ii) D is the rate of duty chargeable in relation to the alcohol as if the duty were charged on the date of the sale or supply of the alcohol, and
 - (iii) V is the rate of value added tax chargeable in relation to the alcohol as if the value added tax were charged on the date of the sale or supply of the alcohol
 - (c) “relevant person” means, in relation to premises in respect of which there is in force a premises licence –
 - (i) The holder of the premises licence,
 - (ii) The designated premises supervisor (if any) in respect of such a licence, or
 - (iii) The personal licence holder who makes or authorises a supply of alcohol under such a licence;
 - (d) “relevant person” means, in relation to premises in respect of which there is in force a club premises certificate, any member or officer of the club present on the premises in a capacity which enables the member or officer to prevent the supply in question; and
 - (e) “value added tax” means value added tax charged in accordance with the Value Added Tax Act 1994
3. Where the permitted price given by Paragraph (b) of paragraph 2 would (apart from this paragraph) not be a whole number of pennies, the price given by that sub-paragraph shall be taken to be the price actually given by that sub-paragraph rounded up to the nearest penny.
4. (1) Sub-paragraph (2) applies where the permitted price by Paragraph (b) of paragraph 2 on a day (“the first day”) would be different from the permitted price on the next day (“the second day”) as a result of a change to the rate of duty or value added tax.
 - (2) The permitted price which would apply on the first day applies to sales or supplies of alcohol which take place before the expiry of the period of 14 days beginning on the second day.

The Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) (Amendment) Order 2014

The below Mandatory Conditions **replace** the Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) Order 2010 and comes into effect **on 1st October 2014**

Conditions 1 to 4 refer to all premises that sell or supply alcohol for consumption on the premises. Condition 3 is relevant to Premises that sell for consumption off the premises.

1. (1) The responsible person must ensure that staff on relevant premises do not carry out, arrange or participate in any irresponsible promotions in relation to the premises.

(2) In this paragraph, an irresponsible promotion means any one or more of the following activities, or substantially similar activities, carried on for the purpose of encouraging the sale or supply of alcohol for consumption on the premises—

(a) games or other activities which require or encourage, or are designed to require or encourage, individuals to—

(i) drink a quantity of alcohol within a time limit (other than to drink alcohol sold or supplied on the premises before the cessation of the period in which the responsible person is authorised to sell or supply alcohol), or

(ii) drink as much alcohol as possible (whether within a time limit or otherwise);

(b) provision of unlimited or unspecified quantities of alcohol free or for a fixed or discounted fee to the public or to a group defined by a particular characteristic in a manner which carries a significant risk of undermining a licensing objective;

(c) provision of free or discounted alcohol or any other thing as a prize to encourage or reward the purchase and consumption of alcohol over a period of 24 hours or less in a manner which carries a significant risk of undermining a licensing objective;

(d) selling or supplying alcohol in association with promotional posters or flyers on, or in the vicinity of, the premises which can reasonably be considered to condone, encourage or glamorise anti-social behaviour or to refer to the effects of drunkenness in any favourable manner;

(e) dispensing alcohol directly by one person into the mouth of another (other than where that other person is unable to drink without assistance by reason of disability).

2. The responsible person must ensure that free potable water is provided on request to customers where it is reasonably available.

3. (1) The premises licence holder or club premises certificate holder must ensure that an age verification policy is adopted in respect of the premises in relation to the sale or supply of alcohol.

(2) The designated premises supervisor in relation to the premises licence must ensure that the supply of alcohol at the premises is carried on in accordance with the age verification policy.

(3) The policy must require individuals who appear to the responsible person to be under 18 years of age (or such older age as may be specified in the policy) to produce on request, before being served alcohol, identification bearing their photograph, date of birth and either—

(a) a holographic mark, or

(b) an ultraviolet feature.

4. The responsible person must ensure that—

(a) where any of the following alcoholic drinks is sold or supplied for consumption on the premises (other than alcoholic drinks sold or supplied having been made up in advance ready for sale or supply in a securely closed container) it is available to customers in the following measures—

(i) beer or cider: ½ pint;

(ii) gin, rum, vodka or whisky: 25 ml or 35 ml; and

(iii) still wine in a glass: 125 ml;

(b) these measures are displayed in a menu, price list or other printed material which is available to customers on the premises; and

(c) where a customer does not in relation to a sale of alcohol specify the quantity of alcohol to be sold, the customer is made aware that these measures are available.”

Atodiad 2 – Amodau sy'n gyson â'r Rhestr weithredu

Trwydded Safle'n amodol ar Amodau Ymhlygedig a addaswyd gan Ddeddf Trwyddedu 1964 ac eithrio Adran 68, Tystysgrif Awr Swper ac Adran 64, Tystysgrif Plant - tynnwyd y ddwy adran hyn.

a) Cyffredinol

Bydd staff yn cael eu hyfforddi ar faterion trwyddedu yn ôl yr angen, ac yn arbennig i osgoi gwerthu alcohol i ran dan 18 oed. Ni chaniateir plant ar y safle ar ôl 21.00 oni bai eu bod yng nghwmni oedolyn.

Gofynnir am brawf oedran addas oddi wrth bobl ifanc sy'n ceisio prynu alcohol.

b) Atal troseddau ac anhrefn

Ni oddefir unrhyw ymdrin â chyffuriau, ac ni chaniateir mynediad i rai dan 18 oed i'r safle ar ôl 21.00 oni bai eu bod yng nghwmni oedolyn. Cesglir gwydrau a photeli'n rheolaidd ymhob rhan o'r safle. Bydd y drysau'n cau ar yr amserau priodol os bydd y nifer uchaf o bobl a ganiateir ar y safle. Bydd y drysau'n cau am 01.30 a dim ond y cwsmeriaid hynny sydd eisoes ar y safle fydd yn elwa o'r gweithgareddau trwyddedadwy.

c) Diogelwch cyhoeddus

Ni chaniateir i gwsmeriaid fynd â gwydrau/poteli o'r safle. Cesglir gwydrau/poteli gwag yn rheolaidd. Cedwir golwg cyson ar y nifer o bobl sydd ar y safle a chaeir y drysau os cyrhaeddir y nifer uchaf a ganiateir.

d) Atal niwsans cyhoeddus

Bydd unrhyw gerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r adloniant a ddarperir yn cael ei chadw ar lefel resymol a bydd bob amser dan reolaeth, ac yn ôl disgrisiwn y trwyddedai. Bydd y trwyddedai'n cadw'r hawl i wrthod mynediad i unrhyw rai sy'n ymddwyn yn afreolus, ac yn gofyn i bobl o'r fath i adael y safle. Ni fydd unrhyw alcohol yn cael ei werthu am 30 munud cyn i'r safle gau er mwyn caniatáu i gwsmeriaid adael yn raddol. Bydd cwsmeriaid yn cael eu hatgoffa i barchu anghenion y trigolion lleol. Bydd rhifau tacsï ar gael.

e) Amddiffyn plant rhag niwed

Cardiau prawf oedran. Ni chaniateir i blant fod ar y safle ar ôl 21.00 oni bai eu bod yng nghwmni oedolyn. Bydd gofyn bod plant yng nghwmni oedolyn bob amser pan fyddant ar y safle.

Annex 2 - Conditions consistent with the operating Schedule

Premises Licence is subject to Embedded Conditions converted under Licensing Act 1964 with exception of Section 68, Supper Hour Certificate and Section 64 Children's Certificate:- Both Sections removed.

a) General

Staff will be trained on licensing issues when the need arises and in particular to prevent the sale of alcohol to under 18's. No children under 18 after 21:00hrs unless accompanied by an adult.

Suitable proof of age will be required from young people attempting to purchase alcohol.

b) The prevention of crime and disorder

Zero tolerance towards drugs, age restrictions to under 18's from entering the premises after 2100hrs unless accompanied by an adult. Regular glass and bottle collection will be undertaken throughout the premises. Doors will be closed at appropriate times if premises are near to maximum occupancy. Doors will be closed at 0130 and only those customers already within premises will then be allowed to benefit from the licensable activities.

c) Public safety

Customers are not permitted to remove glasses/bottles from the premises. Regular collection of empty glasses/bottles. Regular checks will be made as to occupancy and doors closed if maximum occupancy reached.

d) The prevention of public nuisance

Keeping music to a reasonable level to the volume of music live and recorded used in connection with the entertainment provided shall at all times be under the control and at the discretion of the licensee. The licensee will reserve the right to refuse entry to persons not conducting themselves in an orderly manner and request that such persons leave the premises. The supply of alcohol will cease 30 mins prior to the premises being closed to allow customers to disperse gradually. Customers will be reminded to respect the needs to local residents. Taxi numbers available.

e) The protection of children from harm

Proof of age cards. Children will not be permitted to be present on the premises after 2100hrs unless accompanied by an adult. Requirement for children to be accompanied by an adult at the times that they are allowed to be present.

Atodiad 3 – Amodau yn atodedig yn sgil gwrandawriad gan yr awdurdod trwyddedu/cyfarfod cyfryngu

Cyfarfod Cyfryngu a gynhaliwyd yn Ystafell Ystwyth, Neuadd Sir Ceredigion am 1005 ar 15fed Medi 2005.

PRESENNOL:- Mr D.R. Davies, Ymgeisydd; PC John Evans, Swyddog Trwyddedu'r Heddlu a Mr Colin Parr, Swyddog y Prosiect Trwyddedu.

Cytundebau:

- Amserau terfynol wedi'u newid yn unol â'r manylion a geir yn y drwydded hon
- Ni fydd Goruchwyliwr y Safle'n caniatáu unrhyw ymddygiad meddw, treisgar neu gwerylgar ar y safle. Bydd unrhyw rai sy'n ymddwyn felly'n cael eu symud o'r safle, a hysbysir yr Heddlu os oes angen
- Yr Ardd Gwrw i gau am 2300.
- Dim mynediad/ail-fynediad ar ôl 2400 (Sul - Iau), 0100 (Gwener a Sadwrn)
- Bydd cwsmeriaid sy'n creu sŵn bob tro wrth adael y safle'n cael eu gwahardd o'r safle
- Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus i fod mewn grym ar y safle.

Llofnodwyd y ddogfen gan y tri a enwyd i nodi bod y sylwadau wedi'u tynnu'n ôl o ganlyniad i'r cytundebau uchod.

Annex 3 - Conditions attached after a hearing by the licensing authority/ Mediation meeting

Mediation Meeting held at Ystwyth Room, Ceredigion County Hall at 1005 Hrs on 15th September 2005.

PRESENT:- Mr. D.R. Davies, Applicant. Pc John Evans, Police Licensing Officer and Mr. Colin Parr, Licensing Project Officer.

Agreements:

- Terminal times changed in line with details contained in this licence.
- Premises Supervisor will not allow drunken, violent or quarrelsome behaviour on premises. Anyone behaving as such will be removed and if necessary Police informed.
- Beer garden to close at 2300 Hrs.
- No entry/re entry after 2400 Hrs (Sun-Thur), 0100 Hrs (Fri and Sat).
- Customers who persistently leave premises creating noise will be banned from the premises.
- Public Liability Insurance to be in force for the premises.

Document signed by all three named indicating representations withdrawn as a consequence of above agreements.

Atodiad 4 – Cynlluniau | Annex 4 – Plans

